# Cod Ymarfer Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth

**Corff Cymeradwyo:** Y Cyngor

**Dyddiad Cymeradwyo**: 12 Ebrill 2019

**Perchennog y polisi:** Ysgrifennydd y Brifysgol

**Cyswllt y polisi:** Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

**Statws y polisi:** Diwygiedig

**Ferwin:** 3.0

**Dyddiad yr adolygiad nesaf:** Ebrill 2024

# COD YMARFER UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

Mae Deddf Addysg 1994 Rhan II (‘Undebau Myfyrwyr’) yn mynnu bod y Cyngor, sef corff llywodraethol Prifysgol Aberystwyth (PA), yn paratoi, cyhoeddi, ac adolygu, lle bo angen, God Ymarfer yn nodi’r modd y cyflawnir gofynion y Ddeddf mewn perthynas ag Undeb y Myfyrwyr i fyfyrwyr PA.

Mae’r Ddeddf yn gofyn i’r Cyngor gymryd camau sy’n rhesymol ymarferol er mwyn sicrhau bod unrhyw Undeb Myfyrwyr yn PA yn gweithredu mewn modd teg a democrataidd, ac yn atebol am ei gyllid. Bydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UMAber) yn annog rhyddid mynegiant cyfreithlon. Mae PA ac UMAber yn ymrwymedig i’r egwyddorion hyn.

Mae’r Ddeddf yn nodi’n ogystal faterion penodol y mae gofyn i’r Cyngor eu rhoi ar waith, yn cynnwys hawl unrhyw fyfyriwr i beidio â bod yn aelod o Undeb y Myfyrwyr.

1. <u>Undeb y Myfyrwyr</u>

    1. Mae UMAber yn gymdeithas anghorfforaethol, ac felly yn gorff annibynnol ar PA. Mae’n Elusen Gofrestredig a’i chyfeirnod yw 1150576. Mae Bwrdd Ymddiriedolwyr UMAber yn gyfrifol am sicrhau bod ei faterion ariannol yn cael eu gweithredu’n gywir ac mai dim ond yn unol â Deddf Addysg 1994, y Cod Ymarfer hwn a deddfwriaeth elusennol a statudol arall, y defnyddir ei arian.

    2. Bydd Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr UMAber yn Swyddog Sabothol a etholwyd yn unol â’r gofynion a nodir yn 5 isod

2. <u>Swyddog Penodedig</u>

    Bydd Clerc y Cyngor yn gweithredu fel y ‘Swyddog Penodedig’ ar ran y Cyngor ym mhob mater a ragnodir yn y Cod Ymarfer. Gall Clerc y Cyngor ddynodi unigolyn arall neu grŵp i weithredu ar ei r/rhan yn hyn o beth. Mewn achosion o’r fath, Clerc y Cyngor, fel y Swyddog Penodedig, fydd yn gyfrifol am yr holl faterion a ragnodir yn y Cod Ymarfer hwn.

3. <u>Cyfansoddiad Undeb y Myfyrwyr</u>

    1. Bydd cyfansoddiad ysgrifenedig ar gyfer UMAber wedi’i gymeradwyo gan y Cyngor, a’i adolygu gan y Cyngor bob 5 mlynedd o leiaf.

    2. Bydd Cyfansoddiad, Atodlenni, Rheoliadau, ac Is-ddeddfau UMAber yn parhau ar ffurf ysgrifenedig ac ar gael i’r holl fyfyrwyr drwy wefan UMAber.

    3. Cyfrifoldeb Bwrdd Ymddiriedolwyr UMAber fydd sicrhau bod y Cyfansoddiad, yr Atodlenni, y Rheoliadau a’r Is-ddeddfau ar gael i bob myfyriwr PA sy’n holi amdanynt, a hynny yn rhad ac am ddim.

    4. Bydd y Swyddog Penodedig yn adolygu Cyfansoddiad UMAber bob pum mlynedd drwy ymgynghori â Chadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr UMAber a’r Prif Weithredwr.

    5. Bydd unrhyw ddiwygiadau a argymhellir i Gyfansoddiad UMAber, unwaith ag y byddant wedi cadarnhau yn ffurfiol gan UMAber un unol â’r darpariaethau yn y Cyfansoddiad presennol, yn amodol ar eu cymeradwyo gan Gyngor PA. Ni wneir newidiadau i’r Cyfansoddiad presennol heb gydsyniad ysgrifenedig blaenorol Cyngor PA drwy’r Swyddog Penodedig.

6. Ni fydd angen cymeradwyaeth PA ar gyfer unrhyw ddiwygiadau i ddogfennau llywodraethu eraill UMAber – gan gynnwys unrhyw Atodlenni, Rheoliadau, neu Is-ddeddfau. Fodd bynnag, dylid rhannu copïau er gwybodaeth o unrhyw ddiwygiadau i'r cyfryw ddogfennau i'r Swyddog Penodedig.

4. Aelodaeth

1. Bydd pob myfyriwr sydd wedi cofrestru i ddilyn cwrs PA yn aelod o UMAber, oni bai eu bod wedi rhoi gwybod i UMAber eu bod yn dymuno dewis peidio â bod yn aelod. Bydd pob swyddog sabothol llawn-amser etholedig yn UMAber hefyd yn aelodau o UMAber.

2. Cyfrifoldeb PA, trwy Lawlyfr y Myfyrwyr a'r wefan, fydd tynnu at sylw'r myfyrwyr o'r hawl i ddewis peidio â bod yn aelod o UMAber, a chanlyniadau gwneud hynny. Ni fydd myfyrwyr sy'n dewis peidio ag ymaelodi âg UMAber dan anfantais annheg o ran darparu gwasanaethau neu fel arall.

3. Ni fydd gan fyfyrwyr nad ydynt yn aelodau o UMAber yr hawl i unrhyw freintiau neu hawliau a roddir i aelodau UMAber. Dyma fydd goblygiadau peidio ag ymaelodi:

    1. Ni fydd myfyriwr yn gallu cymryd rhan yn unrhyw drefn ddemocrataidd sy'n perthyn i UMAber;

    2. Ni chaiff myfyriwr ddal swydd yn unrhyw glwb neu gymdeithas sy'n perthyn i UMAber, oherwydd yr angen am atebolrwydd ariannol i UMAber (ond gall myfyrwyr cofrestredig PA ymuno ag unrhyw glwb neu gymdeithas sy'n perthyn i UMAber fel aelodau cyswllt, yn amodol ar dalu'r ffïoedd ymaelodi priodol);

    3. Ni fydd UMAber yn cynrychioli myfyriwr yn unrhyw weithdrefnau disgyblu, cwyno neu academaidd; a

    4. Dim ond fel gwestai y gall myfyriwr fynychu digwyddiadau swyddogol UMAber.

4. Unwaith y bydd myfyriwr yn arfer ei hawl i beidio ag ymaelodi ag UMAber, ni fydd yn aelod am weddill y flwyddyn academaidd oni bydd yn gwneud cais i ailymuno yn unol ag is-ddeddfau UMAber.

5. Cyfrifoldeb PA fydd hyrwyddo ymhlith y myfyrwyr, trwy'r wefan, fanteision ymaelodi ag UMAber a'r trefniadau ar gyfer cofrestru yn aelodau o UMAber.

5. Swyddogion Sabothol

1. Etholir holl Swyddogion Sabothol UMAber bob blwyddyn drwy bleidlais gudd a bydd hawl gan bob aelod o UMAber i bleidlais hafal. Gellir cynnal pleidleisiau o'r fath yn electronig.

2. Os na chynhelir etholiad yn gyfan-gwbl yn electronig, yn unol â gofynion Deddf Addysg 1994, gwahoddir y Swyddog Penodedig neu'r sawl a enwebir ganddo i'r broses o gyfrif y pleidleisiau papur er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei chynnal mewn modd teg a thryloyw.

3. Ni chaiff unigolyn ddal swydd Sabothol neu swydd etholedig arall yn UMAber am fwy na dwy flynedd i gyd, i'w ethol yn flynyddol.

6. Materion ariannol

1. Mae UMAber, drwy'r Bwrdd Ymddiriedolaethwyr, yn gyfrifol am gynnal ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau mai dim ond yn unol â Deddf Addysg 1994; y Cod Ymarfer hwn; gofynion statudol eraill; ac amodau eraill y gall PA eu rhagnodi o bryd i'w gilydd, y defnyddir yr arian a roddir iddo gan PA.

2. Rhaid i UMAber, mewn unrhyw achos:

    1. gadw cyfrifon a chofnodion o'r cyfrifon, a pharatoi manylion cyfrifo, yn unol ag egwyddorion cyfrifo proffesiynol arferol;

    2. cynnal a chadw trefn gadarn o reolaeth dros faterion ariannol mewnol;

    3. cynllunio a chynnal ei faterion ariannol er mwyn sicrhau bod cyfanswm ei incwm yn ddigon, o gymryd un flwyddyn gyda'r llall, i gwrdd â'i holl wariant a'i fod yn cynnal solfedd ariannol;

    4. sicrhau yswiriant priodol ar gyfer asedau UMAber a rhwymedigaethau cyflogwr cyhoeddus; ac

    5. adrodd yn rheolaidd wrth Gyfarwyddwr Cyllid PA, drwy drefn y cytunwyd arni, er mwyn galluogi PA i gymeradwyo cyllidebau blynyddol.

3. <u>Cyllidebau</u>

    1. Bydd Prif Weithredwr UMAber yn cyflwyno rhagolygon blynyddol a chyllidebau rhagamcanol i Bwyllgor Adnoddau a Pherfformiad PA; yn dilyn ymgynghori ac adolygu ag Adran Gyllid PA, ac ar y sail y rhagolygon hyn y bydd PA yn cytuno ar y cymhorthdal bloc i UMAber.

    2. Bydd Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr UMAber a'r Prif Weithredwr yn cyflwyno'r datganiadau ariannol blynyddol wedi'u harchwilio i'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, fel arfer erbyn diwedd semester cyntaf y flwyddyn academaidd ddilynol.

7. <u>Dyrannu adnoddau i glybiau chwaraeon a chymdeithasau diwylliannol</u>

Bydd y drefn ar gyfer dyrannu adnoddau i glybiau chwaraeon a chymdeithasau diwylliannol yn deg ac wedi'i nodi'n ysgrifenedig ac ar gael i'r holl fyfyrwyr ei gweld drwy wefan UMAber neu drwy adeilad UMAber ar Gampws Penglais.

8. <u>Cysylltiad sefydliadau allanol â'r Undeb</u>

Bydd UMAber yn cyhoeddi, fel rhan o'r datganiadau ariannol blynyddol wedi'u harchwilio, enwau sefydliadau allanol y mae UMAber yn gysylltiedig â hwy, neu y mae'n bwriadu bod yn gysylltiedig â hwy, a manylion y tanysgrifiadau, ffïoedd neu roddion a gyflwynwyd neu y bwriedir eu cyflwyno i unrhyw sefydliad allanol y mae UMAber yn gysylltiedig ag ef.

9. <u>Y Drefn Gwyno</u>

    1. Bydd gan UMAber drefn gwyno ysgrifenedig, a fydd ar gael i'r holl fyfyrwyr drwy wefan UMAber. Bydd y drefn hon yn galluogi myfyrwyr neu grwpiau o fyfyrwyr sy'n anfodlon â'u trafodiadau ag UMAber i sicrhau ymdriniaeth brydlon a theg â'r cwynion, a, gweithredu camau unioni effeithiol, os caiff y gŵyn ei chadarnhau.

2. Bydd y drefn gwyno yn cynnwys darparu ar gyfer cam yn ystod y drefn lle gellir cyfeirio'r sawl sy'n cwyno at unigolyn annibynnol a benodir gan Gyngor PA i ymchwilio i gwynion ac adrodd yn eu cylch.

3. Bydd y drefn gwyno ar gael yn rhad ac am ddim i'r holl fyfyrwyr drwy holi amdani.

4. Bydd unrhyw aelod o UMAber sydd â chwyn yn ymwneud â materion UMAber yn cwyno wrth Gadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr UMAber, neu fel arall i Brif Weithredwr UMAber, a fydd yn trefnu i'r mater gael ei ystyried yn unol â'r drefn gwyno sefydledig ac yn unol â gofynion Cyfansoddiad UMAber.

10. <u>Cyffredinol</u>

1. Bydd PA yn tynnu sylw myfyrwyr at y Cod Ymarfer hwn o leiaf unwaith y flwyddyn trwy Lawlyfr y Myfyrwyr a'r wefan.

2. Mae aelodau UMAber wedi'u rhwymo i ddilyn Cod Ymarfer PA mewn perthynas â'r rhyddid i lefaru a luniwyd yn unol ag Adran 43 Deddf Addysg (Rhif 2) 1986.

3. Gellir gwneud newidiadau i'r Cod Ymarfer hwn drwy gytundeb rhwng PA ac UMAber. Ceidw PA yr hawl, yn dilyn ymgynghori ag UMAber, i wneud newidiadau i'r Cod Ymarfer y gwêl y Cyngor yn dda i'w gwneud er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â darpariaethau adran 22 Deddf Addysg 1994.